



Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd	Rôl Hyfforddi a Datblygu Pobl (Swyddog Llywodraethu a Datblygu Pobl)
Yn atebol i	Arweinydd Llywodraethu, Arweinydd Datblygu Pobl, Arweinydd Hyfforddi ac Arweinydd Sylfaen a Chyfranogi
Yn gyfrifol am	Amherthnasol

Pwrpas y swydd

Mae hwn yn gyfle cyffrous i chwarae rhan allweddol yn y Gyfarwyddiaeth Systemau Chwaraeon. Yn gweithio'n gydweithredol ar draws Chwaraeon Cymru, byddwch yn arwain, yn datblygu ac yn cefnogi gwaith allweddol perthnasol i lywodraethu, pobl a moeseg.

Byddwch yn cefnogi ac yn cyflawni elfennau o'r fframwaith gallu ochr yn ochr â chefnogi partneriaid yn berthnasol i'r Fframwaith Llywodraethu ac Arwain ar gyfer Cymru, a hefyd yn cynorthwyo gyda gweithredu'r model buddsoddi newydd.

Byddwch yn darparu arweiniad a chefnogaeth i bartneriaid (yn enwedig Cyrff Rheoli Cenedlaethol ac Endidau Rhanbarthol) gyda phob mater perthnasol i Lywodraethu a Datblygu Pobl. Yn benodol, byddwch yn chwarae rhan allweddol mewn cefnogi datblygu hyfforddwy a gwirfoddolwyr ledled Cymru.

Prif ddyletswyddau

- Cynghori a darparu cefnogaeth i'r Arweinydd Llywodraethu, yr Arweinydd Datblygu Pobl a'r Arweinydd Hyfforddi i sicrhau bod polisiau'n cael eu datblygu ac i sicrhau'r effaith orau yn gysylltiedig â Strategaeth Chwaraeon Cymru.
- Gweithio ar Lefel uwch gyda Phartneriaid Cenedlaethol (yn benodol Awdurdodau Lleol, Endidau Rhanbarthol a Chyrff Rheoli Cenedlaethol) i ddylanwadu ar eu cynlluniau a gweithredu strategaethau a pholisiau perthnasol i lywodraethu a datblygu pobl gan sicrhau bod hyn yn parhau wrth galon eu gwaith.
- Cydymffurfiaeth Partneriaid – Adrodd, darparu cyngor, rheoli risg a chanfod bylchau a chyfleoedd ar gyfer datblygu mewn perthynas â safonau a chydymffurfiaeth – e.e. diogelu, cydraddoldeb ac ati.
- Adnabod cyfleoedd i wella llywodraethu, datblygu pobl, hyfforddi a gwirfoddoli ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys adnabod esiamplau blaenllaw yn y byd a chysylltu â chyrff y tu allan i Gymru ynghylch y meysydd datblygu hyn.
- Arwain datblygiad adnoddau a fydd yn effeithio ar lywodraethu, datblygu pobl a moeseg.
- Croesawu technoleg ddigidol i rannu gwybodaeth a syniadau perthnasol ar draws y meysydd busnes ac i sicrhau bod gwybodaeth a dirnadaeth yn cael eu rhannu mor eang â phosib ar draws y sector.
- Cefnogi gweithredu'r model buddsoddi mewn partneriaid newydd.
- Arwain datblygiad rhaglenni cenedlaethol fel Rhaglen y Llysgenhadon Ifanc i ddatblygu arweinwyr y dyfodol, mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid y DU i ddylanwadu ar y gwaith yng Nghymru a gweithredu fel prif bwynt cyswllt e.e. Youth Sports Trust.
- Cynrychioli Cymru ar lefel y DU gyda phob mater perthnasol i chwaraeon/cydnabyddiaeth cyrff rheoli cenedlaethol a heriau cyfreithiol.
- Sicrhau bod y defnydd gorau posib yn cael ei wneud o'r buddsoddiad mewn partneriaid a rheoli cyllideb yn effeithiol, yn unol â rheoliadau Chwaraeon Cymru.
- Arwain y fforwm Hyfforddi Cenedlaethol i hybu cydweithrediad ar ddatblygu hyfforddwyr a dylanwadu ar bolisiau cenedlaethol.
- Cyflawni cyfrifoldebau sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth rhagorol i Chwaraeon Cymru mewn perthynas â'n ddyletswyddau statudol, gan gynnwys Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cydraddoldeb, Diogelwch Gwybodaeth, Rheoli Risg, yr Iaith Gymraeg, Diogelu, Rheoliadau Ariannol ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Gweithio'n hyblyg gan gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol ac yn berthnasol i'r swydd ac yn briodol i'r raddfa.

Gwerthoedd Chwaraeon Cymru

Mae ein dull o weithredu i alluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu yn esblygu. Rydym wedi ymrwymo i herio ein hunain yn barhaus i wneud y canlynol:

Dysgu Gyda'n Gilydd

Archwilio, profi ac adolygu yn gyson.

Cyflawni Gyda'n Gilydd

Rhannu canlyniadau, meithrin perthnasoedd agored a gonest, darparu adborth cadarn, gwella perfformiad yn gyson.

Dathlu Gyda'n Gilydd

Cydnabod ein llwyddiannau a rennir drwy bartneriaid effeithiol.

Drwy wneud y canlynol:

Gweithredu'n Ddidwyll

Deall a Pharchu diwylliant a gwerthoedd ein gilydd. Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ychwanegu Gwerth

Sicrhau'r gymysgedd orau bosib o gefnogaeth, her, buddsoddiad, sgiliau ac arbenigedd i gyflawni ein canlyniadau a rennir.

Annog Arloesi

Croesawu syniadau a dulliau gweithredu newydd a chefnogi uchelgais a meddwl o'r newydd. Peidio ag ofni teimlo'n anghyfforddus.

Manyleb y person

	Gofynion Hanfodol	Gofynion Dymunol
Addysg:	Gradd neu perthnasol profiad	Cymhwyster Rheoli Prosiectau
Profiad:	<p>Profiad o leiaf mewn rôl weithredol gan gefnogi ac arwain gwaith ar draws nifer o flaenoriaethau sefydliadol</p> <p>Profiad blaenorol o ddylanwadu ar Fwrdd ac Uwch Reolwyr, creu hygredded a pherthnasoedd rhagorol</p> <p>Profiad cynllunio gweithredol a strategol wrth ddatblygu syniadau ac atebion arloesol</p>	<p>Profiad o weithio gyda chwaraeon / cydnabyddiaeth Cyrff Rheoli Cenedlaethol, gan gynnwys apeliadau a gweithio gyda chyrrff y DU</p> <p>Profiad o weithio mewn systemau hyfforddi yng Nghymru a/neu yn y DU</p> <p>Profiad o ddefnyddio technoleg i ddylanwadu ar waith a'i gyflwyno</p>

	<p>Enw da clir am ddarparu ac adolygu meysydd gwaith allweddol, gan ddysgu a diwygio gwaith yn ôl yr angen</p> <p>Rheolaeth effeithiol ar gyllidebau</p> <p>Gwybodaeth am chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt ar lefel y DU gan gynnwys chwaraeon/cydnabyddiaeth Cyrff Rheoli Cenedlaethol</p> <p>Profiad blaenorol o ysgrifennu papurau polisi</p> <p>Gwybodaeth helaeth am wrifoddoli a hyfforddi yng Nghymru, a phrofiad ohonynt, yn berthnasol i'r sector chwaraeon</p>	
Sgiliau, Doniau a Galluoedd:	<p>Gallu meithrin perthnasoedd gydag amrywiaeth o wahanol randdeiliaid.</p> <p>Gallu rheoli amrywiaeth o amcanion gwaith, rhai ag amserlenni heriol a chystadleuol yn aml.</p> <p>Gallu gweld y darlun mawr. Cydnabod sut mae gwahanol feysydd gwaith ar draws sefydliad yn gallu cyd-fynd â'i gilydd.</p> <p>Gallu cymell, annog a herio cydweithwyr.</p> <p>Gallu creu amgylchedd gwaith da a phositif a delio'n effeithiol gyda materion a phroblemau.</p> <p>Gallu trin data a gwybodaeth gyfrinachol yn sensitif</p> <p>Gallu datblygu a gweithredu syniadau arloesol</p> <p>Dal ei hunan ac eraill yn atebol am safonau perfformiad i ddelio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o sefyllfaoedd cymhleth yn aml; gofyn am gefnogaeth a chyfarwyddyd gan eraill yn y sefydliad pan fo angen</p> <p>Ymdopi'n effeithiol ag amseriad, anawsterau a newidiadau i flaenoriaethau; addasu i sefyllfaoedd dan bwysau a gweithredu rheolaeth dda</p>	<p>Gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar</p> <p>Gallu sefydlu prosiectau, yn seiliedig ar drosi bwriad strategol yn gyflawni gweithredol, pennu nodau, diffinio swyddogaethau a thracio cynnydd, adolygu, gwerthuso a gweithredu dysgu i sicrhau'r effaith orau bosib</p>
Amgylchiadau Arbennig:	<p>Gallu gweithio'n hyblyg, gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa arferol</p> <p>Gallu teithio yn ôl yr angen</p>	